**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 20 Medi 2017 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| V M Evans | C A Holley | P R Hood-Williams |
| S M Jones | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| T Beddow | K Guntrip |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |
| Steve Porter | Rheolwr Opsiynau Tai |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J W Jones a/ac G J Tanner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganiadau o ddiddordeb - Chris Holley

2 **Nodiadau cyfarfod 8 Awst 2017**

Cytunodd y panel ar y nodiadau fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3 **Atal gan gynnwys (i) Y diweddaraf ar Gydlynu Ardaloedd Lleol (CALI) a (ii) Cefnogi Pobl**

Amlinellodd Alex Williams, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, yr ymagwedd at atal. Daeth Steve Porter o'r adran tai hefyd i'r cyfarfod ar gyfer ei eitem i ateb cwestiynau ar gefnogi pobl.

**Strategaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

Pwyntiau trafod:

- Pryder am fynediad i dudalennau'r Gwasanaethau Cymdeithasol o hafan gwefan y cyngor
- Hoffai'r panel wybod mwy am y llwyfan gwybodaeth DEWIS

Camau gweithredu:

- Bydd llythyrau'n cael eu hanfon at Aelod y Cabinet ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes ynghylch mynediad i dudalennau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar y wefan
- Cyflwyniad byr ar y llwyfan DEWIS i'w drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

**Cydlynu Ardaloedd Lleol**

Pwyntiau trafod:

- Risg i gynaladwyedd yr ymagwedd o ganlyniad i gyllid partneriaeth sy'n gyfyngedig o ran amser.
- Bydd data perfformiad yn cael ei ddatblygu i ddangos cyfraniad Cydlynwyr Ardaloedd Lleol. Y panel i gael gwybod am gynnydd

**Cynadledda Grŵp Teulu i Oedolion**

Cytunwyd ar y canlynol:

- Hoffai'r panel gael mwy o fanylion am y newid hwn i'r ymagwedd a sut mae'n gweithio.

Camau gweithredu:

- Bydd Alex Williams yn darparu copi o'r Hyfforddiant Sefydlu ar Ddiogelu i Aelodau ar gyfer y 2 aelod cyfetholedig er gwybodaeth
- Bydd Alex Williams yn rhoi mwy o fanylion i'r panel ar adran 6 yr adroddiad Ataliaeth, yn benodol 6.4 a 6.5
- Bydd Alex Williams yn darparu rhai senarios i helpu'r panel i ddeall Cynadledda Grŵp Teulu i Oedolion.

**Strategaeth Gomisiynu**

Pwyntiau trafod:

- Bydd Strategaeth Gomisiynu'n cael ei datblygu ar ôl cytuno ar y Strategaeth Ataliaeth. Bydd gwaith ar y Strategaeth Gomisiynu'n dechrau yn y flwyddyn newydd.

**Goblygiadau Ariannol**

Pwyntiau trafod:

- Teimla'r panel y byddai'n ddefnyddiol i ddefnyddio ymagwedd beilot wrth symud adnoddau o ddulliau mwy ffurfiol o ofal i ymagwedd fwy ataliol/ymyrryd yn gynnar.

4 **Trosolwg o Raglen Bae'r Gorllewin**

Gohiriwyd yr eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.

5 **Rhaglen Waith 2017-18**

Camau gweithredu:

- Aildrefnu 'Trosolwg o Raglen Bae'r Gorllewin' i'r cyfarfod ar 21 Tachwedd 2017. Cynnwys 'Llywodraethu' fel rhan o'r eitem
- Ychwanegu 'Cyflwyniad ar Lwyfan DEWIS' i raglen waith y dyfodol. (Ychwanegwyd i gyfarfod 16 Ionawr 2018 dros dro)
- Anfonwyd llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm